# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Tachwedd 2017

Amser: 13.00 - 16.02

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4352

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC<br>Angela Burns AC (yn lle Mohammad Asghar (Oscar) AC) |
| Tystion: | Nick Capaldi, Cyngor Celfyddydau Cymru<br>David Michael, Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>Rhodri Glyn Thomas, Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>Linda Tomos, Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>Gwyn Williams, Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Anthony Barrett<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br><br>David Millett (Ymchwilydd)<br><br>Gareth David Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar AC - dirprwyodd Angela Burns AC ar ei ran. Ymddiheurodd Neil Hamilton AC ac Adam Price AC hefyd.

1.3 Datganodd Lee Waters AC fuddiant fel Aelod o Bwyllgor Archif Gwleidyddol Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Gymru (16 Hydref 2017)

### 2.2 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Gwybodaeth ychwanegol gan Chwaraeon Cymru (1 Tachwedd 2017)

### 2.3 Arferion a gweithdrefnau gwaith y Pwyllgor: Penodi Prif Weithredwr Awdurdod Cyllid Cymru (18 Hydref 2017)

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Cyngor Celfyddydau Cymru

3.1 Bu'r Aelodau yn craffu ar waith Nick Capaldi, Prif Weithredwr a Gwyn Williams, Cyfarwyddwr Cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17.

3.2 Cytunodd Nick Capaldi i anfon:

- rhagor o wybodaeth am swm y gyllideb a ddyrennir ar gyfer prosiectau sydd wedi'u targedu'n benodol i NEETS mewn ardaloedd difreintiedig, nifer y prosiectau a'r flaenoriaeth a roddir iddynt gan Gyngor y Celfyddydau;
- dadansoddiad manwl o gronfeydd wrth gefn Cyngor Celfyddydau Cymru; a

- nifer y sefydliadau a nodwyd yn rhai ‘risg coch’ yn y portffolio.

## 4 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Llyfrgell Genedlaethol Cymru

3.1 Bu Aelodau yn craffu ar waith Linda Tomas, Llyfrgellydd Cenedlaethol; Rhodri Glyn Thomas, Llywydd a David Michael, Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

6.1 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clercod baratoi adroddiad er mwyn i'r Aelodau ei ystyried.